

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Mawrth 5ed 2013

Presennol: Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (Is gadeirydd), Ian Trow, Dewi Jones, Catrin Roberts, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts

Cynghorydd Alan Evans, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb ac ar ran y Cyngor mynegodd ei longyfarchiadau i Osian Williams a'r grŵp ar eu camp yn ennill Cân i Gymru.

1146 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Beryl Hughes Griffiths ac Arwel LL Jones. Derbyniwyd datganiadau buddiant ym mater ystyried ceisiadau ariannol gan Huw P Roberts, Huw Antur, Alwyn Roberts a Bethan Edwards.

1147 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

1148 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Chwefror 5ed, 2013

1149 **Materion yn codi :**

Llawr concriid dan finiau wrth Erw'r Fron - mae'r Cyngh. Alan Evans wedi sicrhau addewid y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud, a dywedodd hefyd y bydd y lleoliad biniau wrth Tŷ Nant, Cynllwyd, yn cael ei uwchraddio.

1150 **Gohebiaeth:**

Gwynedd:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am arwyddion ar gyfer meysydd chwarae di-fwg ynghyd â'r gost, yn cynnwys eu gosod ar bolyn. Er mwyn lleihau'r gost, cytunwyd i holi a oedd yn bosib i'r Cyngor brynu'r arwydd yn unig. **Gweithredu: Clerc**
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod y Cyngor wedi llwyddo i gael y Prosiect Ceidwad Chwarae i'r ardal. Bydd mwy o fanylion maes o law.
- iii. Derbyniwyd y Rhaglen Waith am fis Mawrth gan y Gwasanaeth Priffyrdd yn dweud y bydd colofn golau stryd yn cael ei newid wrth yr ysgol a bydd cebl newydd yn cael ei osod.

Parc Cenedlaethol Eryri

Rhodddwyd ystyriaeth i gais Cynllunio NO5/71/L286A Brynraber a chytunwyd i'w gefnogi.

Arall:

- i) Derbyniwyd cais gan Marchnad Mentro AQUA am wybodaeth am sgiliau traddodiadol neu benodol i'r ardal a all ddisgyblion cynradd eu dysgu er mwyn creu cynnyrch i'w farchnata yn y Ffair Haf. Awgrymwyd gweu sanau, gwneud bara ceirch a chlymu plu. **Gweithredu: Clerc**
- ii) Darllenwyd llythyr gan Heddlu Gogledd Cymru am recriwtio Swyddogion Gwirfoddol.
- iii) Derbyniwyd llythyr yn diolch i'r Cyngor am awgrymu safle i Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd.
- iv) Derbyniwyd gwybodaeth am Wyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd.
- v) Darllenwyd a nodwyd e-bost gan drethdalwr lleol yn holi am olau stryd (gweler 1150.3 uchod) ac yn mynegi sylwadau am y lloches bws.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

1152 Adolygwyd trefniadau'r noson Goffi

1151 Derbyniwyd argymhelliad yr is-bwyllgor toiledau i brynu'r toiledau am bris isel, ar yr amod y bydd yn bosib dymchwel yr adeilad pe byddai ei oes yn dod i ben. Cytunwyd i ofyn am ddau focs gonestrwydd ar unwaith a symud ymlaen i greu arwydd pwrpasol.

Gweithredu: Clerc

1152 **Y lloches bws wrth yr ysgol.** Mae peth difrod wedi digwydd iddo. Disgwylir mwy o fanylion cyn gwneud penderfyniad ar ei ddyfodol, a chytunwyd i'w drafod ymhellach yn dilyn y Noson Goffi. Cytunwyd i ofyn i Martin Jones a Karl Jones ystyried diogelwch dros dro'r lloches bresennol. **Gweithredu: Clerc**

1153 **Materion ariannol:**

1) Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Cytunwyd i dalu cyfraniad y Cyngor o'r Yswiriant Cenedlaethol.

2) Cytunwyd i dalu biliau'r mis (mynwent, a £60 i'r Archwilydd Cyfrifon)

3) Ystyriwyd ceisiadau am arian a chytunwyd:

Pwyllgor Llên y Llannau	£25
Adran bentref yr Urdd	£100
Eisteddfod Cylch Penllyn yr Urdd	£60
Sioe Llanuwchllyn	£50
Apêl leol Eisteddfod yr Urdd 2014 (rhan 1)	£175
Canolfan y Plase	£75
Eisteddfod Genedlaethol Dinbych	£55
Theatr Bara Caws	£50

4) Yn absenoldeb y swyddogion, ystyriwyd materion tâl a chytunwyd ar y taliadau canlynol:

- | | |
|----------------------|--|
| a) Clerc | £1,560 y flwyddyn, i'w dalu bob mis neu bob chwarter |
| b) Costau Swyddfa | £252 y flwyddyn |
| c) Swyddog y Fynwent | £210 y flwyddyn |
| d) Swyddog ariannol | £210 y flwyddyn |

5) Derbyniwyd gwybodaeth bydd archwilio'r cyfrifon yn digwydd ar 29/5/12.

6) Cytunwyd i ofyn i Karl Jones fod yn gyfrifol am dynnu sylw'r Cyngor at anghenion asedau'r Cyngor. Cytunodd Bethan Edwards i dynnu llun o gyflwr presennol yr asedau ar gyfer pwrpas yswiriant.

1155 Partneriaeth Penllyn - derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr:

- Ymestynnwyd y cytundeb gyda Chyngor Gwynedd gan ddisgwyl y bydd mwy o waith yn cael ei ddatganoli.
- Mae'r gwaith o ddatblygu llawr waelod yr Henblas yn parhau ar y gweill gan ddefnyddio'r grant Cymunedau Cynaliadwy. Mae Syrfewyr yn edrych ar y

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

posibiliadau ac mae Cymdeithas Tai Clwyd yn barod i bartneriaethu i geisio cael gwasanaethau cynghori yno.

- iii. Mae'r Bartneriaeth wedi ffurfio Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf er mwyn allu ymgymryd gyda gwaith a cheisio am grantiau.
- iv. Mae Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf wedi cytuno i gymryd gofal o rai o asedau Parc Cenedlaethol Eryri yn ardal Penllyn.
- v. Bydd gwaith dros dro ar gyfer swyddog marchnata i'r Ganolfan yn yr Henblas, a hefyd bydd swydd rhan amser i Glerc Gwaith i arolygu'r Cytundeb gyda Gwynedd a gofalu bod y gwaith yn cael ei wneud i safon.

Amser gorffen: 9.50pm